CrimeStoppers.

2026

# Connections

Rhoi’r grym i bobl godi eu llais ac atal troseddu



## Gyda’n gilydd, gallwn fod y newid

Un cam ar y tro



# Cynnwys


Codi pontydd, chwalu rhwystrau ........ 1
Meithrin ymddiriedaeth sy'n bwysig ........ 2

**Cipolygon**

Most Wanted mewn rhifau ........ 4
Gwobrau mewn rhifau ........ 5
Mae Crimestoppers yn hanfodol i blismona yng Nghymru ........ 6

**Fearless**

Mynd i'r afael â thân gwyllt ym mhrifddinas yr Alban ........ 8
Rhoi llais i bobl ifanc agored i niwed yn y ddalfa ........ 9
Fearless ar draws Llinellau Cyffuriau ........ 9

**Partneriaethau – cadw cymunedau yn ddiogel gyda'n gilydd**

Ymgyrch 'Mind the Grab' yn targedu troseddau dwyn ffonau ........ 11
Grymuso newid yng Ngogledd Iwerddon ........ 12
Crimestoppers yn ymuno â BBC Crimewatch Live yn ystod eu pen-blwydd yn 40 oed ........ 12
Y tu mewn i HMPPS: Sut mae Crimestoppers yn targedu diogelwch ........ 13
Ynys yn y Caribî yn croesawu Crimestoppers er mwyn cynnal diogelwch ........ 14
Ymdrech ar y cyd gan garnifal yn rhoi hwb i ddiogelwch ........ 15

**Uchafbwyntiau ymgyrchoedd**

Diogelu pobl ifanc rhag 'niwed cudd' fêps anghyfreithlon ........ 17
"Llif gwybodaeth gwell" menter Kick Ket out ........ 18
Gwneud y stryd fawr yn fwy diogel yn Swydd Gaerlŷr ........ 18
Ymateb yr Alban i gost gynyddol troseddau manwerthu ........ 19

**Cymuned Crimestoppers**

Myfyrwyr troseddeg Greenwich yn cynnig dirnadaeth ffres ........ 21
Ffocws ar ddycnwch ein rhedwyr elusennol ........ 21
Defnyddio technoleg i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. ........ 22
Gwasanaethau Cymorth Carlisle yn falch o wneud gwahaniaeth ........ 23
Altia yn cefnogi Cinio Blynyddol 2025 Crimestoppers ........ 23
Croesawu partneriaid a chefnogwyr i'n Pencadlys yn y DU ........ 24




# Codi pontydd, chwalu rhwystrau

Croeso cynnes iawn i rifyn diweddaraf ein helusen o Connections.



**Arglwydd Ashcroft KCMG PC**
Sylfaenydd a Chadeirydd Crimestoppers

Rydw i wrth fy modd yn gweld sut y mae Crimestoppers wedi tyfu ers i minnau ac eraill weld yr angen am wasanaeth adrodd yn ddienw am droseddu, 38 mlynedd yn ôl.

Yma, rydym yn dathlu nifer gynyddol y cysylltiadau amhrisiadwy rhwng ein helusen ac amrywiaeth enfawr o sefydliadau partner ar draws y sectorau cyhoeddus a masnachol, ac rydym yn falch o hynny.

### Cymuned Crimestoppers

O'r heddlu, sy'n dibynnu fwyfwy ar ein cynigion o wobrau a rhestru unigolion yn oriel Most Wanted y DU, i gwmnïau ac asiantaethau'r llywodraeth – gyda'n gilydd, rydym yn cynnig cyfle i bobl y byddent yn cadw'n dawel fel arall efallai, i fynegi eu pryderon mewn ffordd ddiogel.

Yn yr erthyglau sy'n dilyn, byddwch yn clywed lleisiau'r rhai yr ydym yn cydweithio'n agos â nhw ac yn darganfod sut y mae gweithio gyda Crimestoppers yn sicrhau bod mwy o bobl, cymunedau a busnesau yn cael eu diogelu rhag y niwed a achosir gan droseddu a chamymddwyn.

Mawr obeithiaf y byddwch yn cael eich ysbrydoli i ledaenu'r neges am werth ein helusen, gan annog eraill i weithio gyda ni fel y gallan nhw helpu i ledaenu ein neges o obaith.



# Meithrin ymddiriedaeth sy'n bwysig



**Mark Hallas OBE**
Prif Weithredwr Crimestoppers

Wrth i ni fyfyrio am bwysigrwydd ymddiriedaeth a phartneriaeth, mae'r rhifyn hwn yn rhannu straeon am ein gwaith ar lawr gwlad – gan ddangos sut y caiff ymddiriedaeth ei throi yn weithredu sy'n helpu i ddarganfod troseddu a chamymddwyn.

### O weledigaeth i weithredu

Yn gyntaf, mae mwy o bobl nag erioed yn dewis codi eu llais, sy'n cadarnhau bod ymddiriedaeth yn hanfodol wrth helpu i atal niwed a diogelu cymunedau.

Yn ail, yn gynyddol, gwelir ein gwasanaethau ar gyfer sefydliadau fel llwybr chwythu'r chwiban y gellir ymddiried ynddo, gan annog pobl sy'n gwybod am gamymddwyn i gamu ymlaen.

Mae ein gwaith gyda phartneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus, masnachol ac elusennol yn parhau i fynd o nerth i nerth.

Mawr obeithiaf y byddwch yn mwynhau'r cipolwg hwn ar ein gweithgarwch, a amlygir dros y tudalennau nesaf, ac y byddwch yn cael eich calonogi gymaint â minnau am rôl hanfodol ein helusen.






# Cipolygon

Mae staff Crimestoppers yn cydweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael â chamfanteisio a gweithgarwch troseddol gyda'i gilydd. Heb y partneriaethau hyn sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall, byddai'r gwaith hwn yn llawer anos i bawb dan sylw.




CrimeStoppers.

# Most Wanted

**Nid rhestr lonydd o droseddwyr ar ffo yn unig yw Most Wanted.**
**Dros y flwyddyn ddiwethaf, ar unrhyw adeg, mae cannoedd o apeliadau yn fyw**

## Canlyniad

Beth sy'n datrys achosion mewn gwirionedd?



- Wedi'u harestio – 40
- Wedi dod i ben – 6
- Wedi'u dileu o ymchwiliadau – 1
- Heb eu nodi – 1

Mae bron pob apêl yn gorffen oherwydd bod rhywun yn cael eu harestio, sy'n awgrymu effeithiolrwydd y system. Gyda 49 o apeliadau, mae gan Caint nifer llawer uwch na phob heddlu arall.

## Most Wanted – mewn rhifau


264
Cyfanswm yr apeliadau

212
Yn fyw ar hyn o bryd

51.7
Nifer gyfartalog y diwrnodau y bydd apêl yn fyw

50%
Caiff hanner yr holl achosion eu datrys cyn pen dau fis.

## Pa heddluoedd sy'n manteisio fwyaf ar Most Wanted?




**ASIANTAETHAU GORFODI'R GYFRAITH ERAILL**

**SWYDD BEDFORD**

**Caint (49)**
Achosion trawsffiniol, symudedd uchel

**Sussex (35)**
Troseddwyr mynych, ailymddangosiadau niferus

## Pam bod unigolion ar ffo

Mae'r achosion yn ymwneud â thrais difrifol, troseddu cyfundrefnol ac ad-droseddwyr sy'n aml yn gwybod sut i ddiflannu.

- Llofruddiaeth
- Ymosodiad difrifol
- Troseddau arfau tanio
- Cyflenwi a masnachu cyffuriau
- Methu ymddangos / torri amodau gwarant

## Apeliadau byw y mis

Mae nifer yr apeliadau byw yn amrywio o fis i fis, gan adlewyrchu pa mor aml y bydd unigolion dan amheuaeth yn dod i'r amlwg a pha mor gyflym y mae'r cyhoedd yn ymateb.

Isafswm o 194 ↔ uchafswm o 263

CrimeStoppers.

# Gwobrau


**Mae gwobrau yn bodoli er mwyn denu diddordeb y cyfryngau a'r cyhoedd ac er mwyn helpu i ddatrys achosion anodd**

Awdurdodwyd 58 o wobrau

Roedd 36 gwobr wedi cynnig yr uchafswm, sef £20,000

Bu 41 llofruddiaeth yn gysylltiedig ag apeliadau lle y cynigiwyd gwobr

Mae dros hanner y gwobrau yn ymwneud ag achosion lladdiad




Bu **3** gwobr yng **Ngogledd Iwerddon**

Roedd **Glannau Mersi** wedi hyrwyddo **4** gwobr

Roedd **4** cofnod gan **heddluoedd Cymru**

**Gorllewin Canolbarth Lloegr** yw'r rhanbarth mwyaf gweledol y tu allan i Lundain, gyda **6** gwobr

**Heddlu Llundain** yw'r un amlycaf, gydag un o bob tri o'r holl wobrau

# Mae Crimestoppers yn hanfodol i blismona yng Nghymru



Mae Vicki Townsend, Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Gwent, yn myfyrio am rôl hanfodol Crimestoppers wrth gynorthwyo ymchwiliadau

Heb os, mae Crimestoppers yn parhau i fod yn bartner anhepgor wrth blismona yng Nghymru. Mae ei allu i ymgysylltu â chymunedau, hyrwyddo apeliadau, a chynnig sianelau diogel a dienw ar gyfer gwybodaeth hanfodol yn parhau i yrru ymchwiliadau, sicrhau canlyniadau a gwella diogelwch y cyhoedd.

### Apeliadau sy'n sicrhau canlyniadau

Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2025, bu'r elusen yn cynorthwyo ymchwiliadau ar draws holl heddluoedd Cymru trwy gyfrwng 42 o apeliadau Most Wanted, gan roi sylw i ystod eang o droseddau a lleoliadau.

Yn ystod y cyfnod hwn, arweiniodd 29 apêl at y sawl a oedd dan amheuaeth yn troi at yr heddlu, sy'n arwydd clir o hyder cadarn y cyhoedd yng ngwasanaeth adrodd dienw Crimestoppers ac effaith weithredol apeliadau cyson, wedi'u targedu.

Mae'r lefel ymgysylltu hon yn amlygu pa mor hanfodol yw Crimestoppers wrth ein helpu i ledaenu gwybodaeth yn gyflym ac mewn ffordd effeithiol, gan annog aelodau'r cyhoedd i rannu'r hyn y maent yn ei wybod heb ofn.

### Gwybodaeth a roddir yn ddienw yn newid cwrs ymchwiliadau

Rydw i wedi gweld achosion lle y mae Crimestoppers wedi cyflawni



> **"Mae'r ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd yn ei wasanaeth adrodd dienw yn ein galluogi i fanteisio ar wybodaeth na fyddem yn ei chael mewn unrhyw ffordd arall efallai"**

rôl bendant mewn achosion lle'r oedd y sawl dan amheuaeth yn hollol anhysbys ar ddechrau'r cyhoeddiad – sefyllfaoedd lle'r oedd llwybrau ymchwilio yn gyfyngedig. Un enghraifft amlwg yw'r achos o fyrgleriaeth yng Nghaerfyrddin ym mis Awst 2025, lle'r oedd ymatebion y cyhoedd wedi darparu gwybodaeth a oedd wedi cynorthwyo'r heddlu i symud yr ymchwiliadau hyn yn eu blaen yn uniongyrchol. Mae'r canlyniadau hyn yn tanlinellu gallu unigryw Crimestoppers i gyrraedd unigolion na fyddent yn cysylltu fel arall.

### Partner hanfodol yng Nghymru

Mae'n amlwg bod Crimestoppers yn bartner hynod werthfawr i blismona yng Nghymru. Mae'r ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd yn ei wasanaeth adrodd dienw yn ein galluogi i fanteisio ar wybodaeth na fyddem yn ei chael mewn unrhyw ffordd arall efallai. Mae'r canlyniadau a welir yn dangos pa mor hanfodol yw'r gwasanaeth hwn wrth ein helpu i ddiogelu cymunedau, canlyn y rhai sy'n benderfynol o achosi niwed, a sicrhau cyfiawnder. Rydym yn hynod ddiolchgar am gefnogaeth barhaus y cyhoedd ac am ymrwymiad diwyro Crimestoppers wrth ein helpu i gadw Cymru yn ddiogel.







# Mynd i'r afael â thân gwyllt ym mhrifddinas yr Alban



Dros y degawd diwethaf, mae'r cyfnod cyn Noson Tân Gwyllt wedi ysgogi pryder ac ofn i gymunedau Caeredin. Mae Uwcharolygydd Neil Wilson yn esbonio...

Er bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn mwynhau'r cyfnod mewn ffordd ddiogel, mae lleiafrif bychan yn ymddwyn mewn ffordd beryglus – gan gamddefnyddio tân gwyllt, cynnau tanau heb eu hawdurdodi a chreu anrhefn sy'n rhoi cymunedau a'r gwasanaethau brys mewn perygl.

Un o brif ysgogwyr yr ymddygiad hwn yw'r defnydd a wneir o gyfryngau cymdeithasol gan y rhai dan sylw er mwyn glamoreiddio a normaleiddio troseddoldeb, gan roi'r argraff y dylai Noson Tân Gwyllt gael ei hystyried fel cyfle i wneud anrhefn heb unrhyw ganlyniadau.

O brofiad, gall y naratif hwn daro tant gyda phobl ifanc, gan annog y rhai na fyddent yn gwrthdaro â'r gyfraith fel arfer.

### Grymuso lleisiau ifanc i arwain y newid

Gan gydnabod yr heriau, ymunodd Fearless â Heddlu yr Alban, partneriaid statudol a phartneriaid o'r Trydydd Sector i newid y naratif trwy gynnal digwyddiad ar ffurf uwchgynhadledd i bobl ifanc o'r enw Igniting Change.

Bu'r digwyddiad yn addysgu pobl ifanc am gamddefnyddio tân gwyllt a lleihau niwed, ac yn eu grymuso i gyfleu negeseuon am ddiogelwch i'w hysgolion a'u cymheiriaid.

Ar ddiwedd y diwrnod, cynhaliwyd sesiwn panel byw gyda chynrychiolwyr o'r gwasanaethau brys ac o Bartneriaeth Caeredin yn ehangach. Roedd y digwyddiad wedi amlygu'r effeithiau ehangach ar gymunedau, y gwasanaethau brys, darparwyr trafnidiaeth ac anifeiliaid. Bu pobl ifanc yn rhannu eu safbwyntiau a'u myfyrdodau, gan alluogi datblygiad ymgyrch wedi'i theilwra ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae Fearless yn dwyn hygrededd, dirnadaeth a dull a gaiff ei arwain gan bobl ifanc, sy'n taro tant mewn ffyrdd na all negeseuon traddodiadol. Nid niwsans yn unig yw anrhefn tân gwyllt – gall beryglu bywydau. Wrth i Gaeredin edrych ymlaen at Nosweithiau Tân Gwyllt yn y dyfodol, mae'r bartneriaeth hon yn fodel ar gyfer y ffordd y gall gwaith atal ar y cyd, sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, wneud gwahaniaeth ystyrlon.



Fearless

# Rhoi llais i bobl ifanc agored i niwed yn y ddalfa




Sefydlwyd Fearless yn y Ddalfa ar ôl cael sgwrs gyda Phrif Gwnstabl Ivan Balhatchet o Heddlu Swydd Northampton. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar sut y gallai Crimestoppers gyrraedd pobl ifanc a phobl agored i niwed sydd yn nalfa yr heddlu, yn well.

Mae nifer o'r bobl ifanc hyn yn ddioddefwyr, yn hytrach na chyflawnwyr, ac maent yn aml yn destun grŵmio neu gamfanteisio, ac efallai nad ydynt yn gweld y peryglon y maent yn eu hwynebu neu'n sylweddoli bod help ar gael.

Gyda 30-40% o bobl ifanc ac agored i niwed yn y ddalfa yn niwrowahanol, daeth yn glir bod angen ffordd hygyrch a thosturiol arnom i siarad gyda'r holl rai sydd mewn perygl.

**Mae Prif Gwnstabl Balhatchet, Portffolio y Ddalfa a Symud Carcharorion NPCC, yn ychwanegu:**
"Mae cyflwyno Fearless yn nalfeydd yr heddlu yn gam arwyddocaol a chadarnhaol, gan rymuso pobl ifanc sy'n dod trwy'r ddalfa i geisio help heb ofni ôl-effeithiau."

### Dargyfeirio bywydau ifanc rhag niwed

Mae Fearless yn y Ddalfa yn annog myfyrio, gan gynnig tawelwch meddwl i'r rhai sy'n teimlo'n ofnus a grymuso pobl ifanc ac agored i niwed i godi eu llais er mwyn amddiffyn eu hunain, eu ffrindiau a'u teuluoedd.

Law yn llaw â deunyddiau ymarferol sy'n esbonio proses y ddalfa i bobl ifanc ac agored i niwed a'u rhieni neu eu gofalwyr, nod y fenter yw dargyfeirio unigolion i ffwrdd o niwed a sicrhau na fydd y cam o gael eu harestio yn diffinio eu dyfodol.

# Fearless ar draws Llinellau Cyffuriau

Yn ddiweddar, bu Cydlynwyr Ieuenctid Uwch Fearless, Andrea ac Alastair, yn cefnogi dwy gynhadledd a gynhaliwyd gan y Ganolfan Genedlaethol ar Gydlynu Ymdrechion i Daclo Llinellau Cyffuriau (NCLCC).

Yn ystod y cynadleddau a gynhaliwyd ym mis Ionawr a Chwefror, yn y Swyddfa Gartref ac yng Ngholeg Plismona Hendon yn Llundain, croesawyd cynulleidfa amrywiol o dros 300 o bobl sy'n gweithio ar draws Gwasanaeth Heddlu Llundain, Heddlu Dinas Llundain a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, gan gynrychioli rolau o staff a Chwnstabliaid yr Heddlu, yr holl ffordd i fyny i lefel Comander.


Law yn llaw â phartneriaid plismona, gwelwyd cynrychiolaeth gadarn o faes gofal cymdeithasol plant ar draws Llundain a thu hwnt, yn ogystal â chydweithwyr o'r Swyddfa Gartref, GIG,




gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac ystod eang o gyrff anllywodraethol, gan gynnwys No Whispers, Change Grow Live, Foundation of Peace, Stronger People, Ride for Freedom, Compass, Prosiect Bounce Back, a Safer London.

Mae'r ehangder hwn o ran ymgysylltiad yn dangos pa mor bellgyrhaeddol a phwysig yw ein gwaith gyda'n gilydd.

> **"Croesawyd eu cyflwyniad yn fawr iawn, a bu'n rhan allweddol o lwyddiant cyffredinol y digwyddiad"**
>
> **Karen Cawdery, Ditectif Ringyll, Canolfan Genedlaethol ar Gydlynu Ymdrechion i Daclo Llinellau Cyffuriau**




# Partneriaethau

## Cadw cymunedau yn ddiogel gyda'n gilydd

Mae ein tîm Datblygu Busnes prysur yn gweithio mewn partneriaeth â dros 100 o sefydliadau masnachol, llywodraethol ac o'r sector cyhoeddus. Yma, rydym yn bwrw golwg ar rai ohonynt yn unig.








## Ymgyrch 'Mind the Grab' yn targedu troseddau dwyn ffonau

Fel cam mentrus i fynd i'r afael â'r cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o ddwyn ffonau ar y stryd, mae Currys, gyda chymorth Crimestoppers, wedi lansio Mind the Grab. Cynlluniwyd y fenter i ddiogelu cerddwyr rhag cael eu ffôn wedi'i ddwyn yn un o'r ardaloedd siopa prysuraf yn y wlad.

Roedd y peilot, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chyngor San Steffan, Gwasanaeth Heddlu Llundain a gyda chymorth Crimestoppers, yn cyflwyno marciau porffor llachar ar y palmant ar hyd Stryd Rhydychen eiconig Llundain, er mwyn annog pobl i gamu'n ôl o ymyl y palmant ac i fod ar eu gwyliadwriaeth wrth ddefnyddio eu ffonau.

Mae'r ymgyrch yn dod yn ystod cyfnod o bryder ynghylch dwyn ffonau, wrth i niferoedd yr achosion barhau i godi.

**80+**
darn o sylw hysbys

**£465,324**
Gwerth Hysbysebu Cyfatebol

**Featured on:**
Good Morning Britain ITV
BBC Breakfast
Telegraph.co.uk
Daily Mail ar-lein
LBC ac LBC News
BBC Radio London
Yahoo! News ac AOL

Cefnogwyd yr ymdrech gan Crimestoppers, gyda'r linell weledol fel ffordd hygyrch o dynnu sylw at risg a helpu i atal achosion manteisgar o ddwyn ffonau.

Hyfforddwyd staff Currys i gynorthwyo dioddefwyr, cysylltu ag anwyliaid, hysbysu banciau, cyrraedd yr heddlu, a threfnu cludiant diogel i'w cartref yn ôl yr angen.

Mae Cyfarwyddwr Datblygu Busnes Crimestoppers, Kate Johnston, yn disgrifio ciwiau gweledol yr ymgyrch – yn enwedig y linell borffor – fel ffordd ymarferol o atgoffa pobl, sy'n gallu dylanwadu ar ymddygiad a helpu i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn dioddef achos o ddwyn.

"Mae peilot Mind the Grab yn dangos yr hyn sy'n gallu digwydd pan fydd partneriaid plismona, awdurdodau lleol, manwerthwyr ac elusennau yn dod ynghyd ac yn rhannu pwrpas. Mae gwaith atal ac adrodd dienw yn gweithio law yn llaw."

Partneriaethau – cadw cymunedau yn ddiogel gyda'n gilydd

# Grymuso newid wrth lansio Stay Energy Safe yng Ngogledd Iwerddon

Mae Edel Creery, Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Gweithrediadau, Rhwydweithiau Ynni Gogledd Iwerddon, yn esbonio...

Mae partneriaeth newydd rhwng Rhwydweithiau NIE a Crimestoppers wedi dwyn ymgyrch Stay Energy Safe bwrpasol i Ogledd Iwerddon, gan gynnig ffordd ddienw ac y gall pobl ymddiried ynddi o adrodd am achosion o ymyrryd â mesuryddion am y tro cyntaf yn y rhanbarth.



Mae'r ymgyrch wedi sicrhau cynnydd nodedig wrth godi ymwybyddiaeth o beryglon dwyn ynni ac mae wedi ysbrydoli cymunedau ar draws Gogledd Iwerddon i godi eu llais mewn ffordd ddiogel pan fyddant yn gwybod am achosion o ymyrryd â mesuryddion.

Gan ddatblygu gwaith Crimestoppers dros gyfnod hir, o fynd i'r afael â'r arfer o ddwyn ynni ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban, roedd y prosiect hwn yn dwyn yr ymgyrch i Ogledd Iwerddon am y tro cyntaf.

Mae'n canolbwyntio ar y risgiau gwirioneddol pan ymyrrir â mesuryddion, neu pan fydd pobl yn eu dargyfeirio mewn ffordd anghyfreithlon.

Rhwng mis Awst a mis Rhagfyr, roedd yr ymgyrch ar y cyd wedi sicrhau bron i **100 o atgyfeiriadau**, sy'n arwydd clir bod ymwybyddiaeth y cyhoedd yn tyfu, a bod mwy o bobl bellach yn deall y gallant adrodd eu hamheuon mewn ffordd **hollol ddienw**.

Law yn llaw ag ymgysylltu cadarn ar draws cyfryngau cymdeithasol, mae'r ymgyrch wedi llwyddo i gyrraedd miloedd o breswylwyr, perchnogion busnes a grwpiau cymunedol.Mae'r fenter wedi helpu cymunedau i adnabod arwyddion dwyn ynni, cryfhau'r ymddiriedaeth mewn adrodd mewn ffordd ddienw, ac yn bwysicaf oll, mae wedi atal niwed, gan brofi bod cymunedau mwy diogel o fewn cyrraedd pan fydd partneriaid yn dod ynghyd trwy rannu nod.

# Crimestoppers yn ymuno â Crimewatch Live wrth i sioe eiconig y BBC ddathlu ei phen-blwydd yn 40 oed

Estynnwyd gwahoddiad i Crimestoppers ddychwelyd i raglen Crimewatch Live BBC One — adeg amserol wrth i'r BBC nodi 40 mlynedd o frand eiconig Crimewatch.

Ers ei darlledu am y tro cyntaf ym 1984, mae Crimewatch wedi cyflawni rôl genedlaethol fawr wrth helpu'r heddlu i ddatrys miloedd o achosion trwy weithio law yn llaw â'r cyhoedd.

Dros bedwar degawd, mae'r rhaglen a'i deunydd cysylltiedig wedi cynnwys dros 7,000 o apeliadau gan yr heddlu ac mae wedi darlledu dros 700 pennod, sy'n ei gwneud yn un o lwyfannau mwyaf dylanwadol y DU o ran mynd i'r afael â throseddu.




## Sgwrs ar y soffa i agor y gyfres

Ymunodd y Prif Weithredwr, Mark Hallas, â'r cyflwynwyr, Michelle Ackerley a Rav Wilding ym mhennod gyntaf y gyfres ddiwethaf i siarad am rôl gynyddol Crimestoppers wrth helpu mwy o bobl i godi eu llais mewn ffordd ddiogel a dienw.

Roedd ei ymddangosiad wedi amlygu lefelau cynyddol ymddiriedaeth y cyhoedd yn Crimestoppers, yn enwedig pan nad ydynt yn teimlo eu bod yn gallu rhannu trwy lwybrau traddodiadol.

Mae partneriaeth Crimestoppers gyda Crimewatch Live yn parhau i fod yn bwysig am reswm arall: mae'r rhaglen yn amlygu gwobrau uwch ein helusen yn gyson, a ddefnyddir yn aml er mwyn cynorthwyo ymchwiliadau cymhleth neu anodd i'w datrys.

Pan fydd Crimewatch yn cynnwys apêl law yn llaw ag un o'n gwobrau uwch, bydd yr hwb o ran cyhoeddusrwydd yn cynyddu'r siawns o gael gwybodaeth newydd.

Wrth i Crimewatch ddathlu ei phen-blwydd yn 40 oed (ac wrth i Crimestoppers baratoi ar gyfer ei phen-blwydd ei hun yn 40 oed cyn bo hir), mae effaith hirsefydlog y rhaglen deledu yn parhau.

Mae Crimestoppers yn falch i weithio gyda Crimewatch er mwyn annog pobl i godi eu llais, rhannu'r hyn y maent yn ei wybod, a helpu ymchwilwyr i sicrhau cyfiawnder i gymunedau ar draws y DU.



# Y tu mewn i HMPPS: Sut y mae partneriaeth Crimestoppers yn cryfhau diogelwch

HM Prison & Probation Service

Yng Nghymru a Lloegr, mae gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) gyfrifoldeb sydd wrth wraidd diogelu'r cyhoedd.

Mae Uned Wybodaeth Genedlaethol (NIU) HMPPS yn cyflawni rôl hollbwysig wrth nodi, dadansoddi, ac ymateb i fygythiadau diogelwch i garchardai a gwasanaethau prawf cyn iddynt waethygu. Boed hynny yn llygredigaeth, troseddu cyfundrefnol, neu derfysgaeth sy'n effeithio ar HMPPS, mae'r NIU yn gwneud gwaith diflino i ddatblygu darlun manwl am wybodaeth, sy'n helpu i gadw staff, troseddwyr a'r cyhoedd ehangach yn ddiogel.

## Dros ddegawd o rannu gwybodaeth

Un o berthnasoedd NIU sy'n cael ei gwerthfawrogi fwyaf yw ei phartneriaeth hirsefydlog gyda Crimestoppers – trefniant cydweithio sydd wedi bod yn casglu gwybodaeth yn dawel er 2011.

I nifer o bobl sydd â gwybodaeth hanfodol, nid yw bod yn ddienw yn ddewis – mae'n rheidrwydd.

Mae Crimestoppers yn cynnig llwybr dienw neu gyfrinachol ac y gellir ymddiried ynddo i'r unigolion hynny i godi eu llais heb ofni y troseddu sy'n effeithio ar garchardai a gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr. Heb y sicrwydd hwnnw, ni fyddai nifer fyth yn cysylltu o gwbl.

Y canlyniad yw llif o wybodaeth werthfawr ac o ansawdd uchel sy'n gallu gyrru ymatebion gweithredol ar lefel leol, gan helpu i darfu ar weithgarwch anghyfreithlon a chadw pobl yn ddiogel.

**Chris England, Pennaeth Uned Ymchwilio Cyfryngu Digidol HMPPS:**

"Mae adrodd gwybodaeth Crimestoppers yn cyflawni rôl ategol hanfodol wrth gynorthwyo diogelwch mewn carchardai ac yn y gwasanaeth prawf, yn ogystal â diogelwch y cyhoedd yn ehangach. Ers i'r bartneriaeth gadarnhaol gyda HMPPS gychwyn tua 2011, rhannwyd dros **50,000 o adroddiadau gwybodaeth dienw** gyda **HMPPS**.

"Mae'r adroddiadau hyn wedi helpu i nodi a rhoi sylw i ystod eang o fygythiadau sy'n effeithio ar garchardai a chymunedau lleol, gan gynnwys troseddau cyffuriau, cludo a meddu ar eitemau anghyfreithlon, bwlio, trais, a phryderon diogelu megis dangosyddion risg hunanladdiad neu hunan-niwed ymhlith pobl yn y ddalfa."

# Ynys yn y Caribî yn croesawu gwasanaeth Crimestoppers er mwyn cynnal diogelwch



Mae Crimestoppers wedi lansio gwasanaeth newydd ar gyfer pobl Montserrat, ar y cyd â Gwasanaeth Heddlu Brenhinol Montserrat.

Mae Montserrat yn Diriogaeth Tramor Prydeinig gyda phoblogaeth o tua 4,500. Fe'i lleolir yng nghadwyn Ynysoedd Leeward yn y Caribî.

Mae'r gyfradd droseddu yn isel iawn yno, ac mae'n gymuned heddychlon a chytûn. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae Montserrat wedi dioddef dwy drychineb naturiol arwyddocaol, sef Corwynt Hugo ym 1989 a chyfres o ffrwydradau gan Losgfynydd Bryniau Soufriere, a gychwynnodd ym 1995.

Roedd y ffrwydradau wedi distrywio'r rhan fwyaf o ardaloedd ym Montserrat lle'r oedd pobl yn byw, gan ddinistrio'r brifddinas, Plymouth, yn llwyr.

Un o ganlyniadau cael cymunedau llai o faint yw bod bron pawb yn adnabod neu'n perthyn i rywun arall ar yr ynys. Mae pobl yn gofidio y gallai eu gwybodaeth breifat gael ei rhannu neu ddod yn destun clecs a damcaniaethau.

### Pwysau trawswladol gerllaw

Er bod Montserrat yn ddiogel iawn ar hyn o bryd, mae'r ynysoedd cyfagos yn dioddef cynnydd mewn troseddu trawswladol. Er mwyn atal digwyddiadau o'r fath rhag digwydd ar Montserrat, mae gwasanaeth yr heddlu wedi bod yn gweithio'n galed i gynyddu'r wybodaeth y mae'n ei chael.

Mae cyflwyno'r gwasanaeth MNI hwn gan Crimestoppers yn gam hollbwysig. MNI yw cod rhyngwladol Montserrat a'r enw y bydd pobl leol yn ei ddefnyddio pan fyddant yn cyfeirio at yr ynys. Mae'r gwasanaeth yn cynnig proses adrodd ddienw i gymunedau, gan ddarparu llif hanfodol o ran gwybodaeth i'r heddlu.

**Dywedodd Comisiynydd Mark Payne, Pennaeth Gwasanaeth Heddlu Brenhinol Montserrat:**

"Rydym wrth ein bodd i lansio MNI Crimestoppers. Mae'r gwasanaeth yn berffaith ar gyfer anghenion Montserrat ac mae'r tîm wedi cydweithio'n agos iawn gyda ni er mwyn sicrhau bod y system yn cael ei theilwra i'n hanghenion.

"Mawr obeithiaf bod hyn yn ddechrau partneriaeth hirdymor i gadw pobl Montserrat yn ddiogel."



> **Rydym wrth ein bodd i lansio MNI Crimestoppers. Mae'r gwasanaeth yn berffaith ar gyfer anghenion Montserrat ac mae'r tîm wedi cydweithio'n agos iawn gyda ni**
>
> **Comisiynydd Mark Payne, Pennaeth Gwasanaeth Heddlu Brenhinol Montserrat**





# Ymdrech ar y cyd gan Garnifal yn rhoi hwb i ddiogelwch




Mae Carnifal Notting Hill yn ddathliad sydd wedi'i ymwreiddio mewn cymuned, diwylliant a balchder.

Ond i nifer sy'n mynychu, sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n byw gerllaw, mae diogelwch yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn gallu mwyhau'r Carnifal a chadw pawb yn ddiogel.

Dyna pam ein bod wedi cydweithio'n ofalus gyda Gwasanaeth Heddlu Llundain dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn helpu i ddiogelu'r miloedd o bobl sy'n gwneud y Carnifal beth ydyw.

Roedd ein ffocws yn syml: grymuso trigolion Llundain i ofalu am ei gilydd. Trwy annog pobl i rannu'r hyn y maent yn ei wybod mewn ffordd ddienw, ein nod oedd creu ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd.

Dros 13 diwrnod yn unig, llwyddodd ein negeseuon i gyrraedd dros hanner miliwn o bobl, gan sbarduno sgyrsiau pwysig am ddiogelwch a sicrwydd.

Ac roedd gwir eiliadau o gael effaith y tu ôl i'r rhifau hynny: rhannu gwybodaeth, lleihau risgiau ac ymyriadau cynnar a oedd wedi helpu i atal niwed.


Roedd yr ymgyrch hwn yn ein hatgoffa o rywbeth pwerus: pan fydd cymunedau, partneriaid a diben cyffredin yn dod ynghyd, gallwn greu mannau mwy diogel i bawb.

> **Dros 13 diwrnod yn unig, llwyddodd ein negeseuon i gyrraedd dros hanner miliwn o bobl, gan sbarduno sgyrsiau pwysig am ddiogelwch a sicrwydd**



# Uchafbwyntiau ymgyrchoedd

Mae ein helusen wedi parhau i fod mor brysur ag erioed dros y 12 mis diwethaf, wrth gynnal ystod eang o ymgyrchoedd cenedlaethol, rhanbarthol ac wedi'u seilio ar ddatblygiad busnes, a lwyddodd i gael cryn effaith







## Diogelu pobl ifanc rhag 'niwed cudd' fêps anghyfreithlon

Daeth Crimestoppers a FACT (Y Ffederasiwn yn Erbyn Dwyn Hawlfraint) a phartneriaid ar draws meysydd gorfodi'r gyfraith, cynghorau lleol ac iechyd y cyhoedd ynghyd i amlygu problem gynyddol fêps anghyfreithlon.

Cynhaliwyd yr ymgyrch yn ystod y gwanwyn 2025, gan geisio helpu cymunedau i adnabod arwyddion troseddu sy'n gysylltiedig â chynhyrchion fepio anghyfreithlon, megis gwyngalchu arian neu fêps yn cael eu defnyddio ar gyfer grŵmio a chamfanteisio ar bobl ifanc agored i niwed.

### Yr hyn a ddatgelodd yr ymgyrch

Wrth edrych yn ôl, roedd un neges yn cael ei chyfleu yn glir: mae fêps anghyfreithlon yn parhau i fod yn fygythiad arwyddocaol.

Nid yn unig y mae'r cynhyrchion hyn yn osgoi safonau diogelwch – sy'n golygu eu bod yn risg tân ac i iechyd – ond maent hefyd yn helpu i ariannu troseddoldeb ehangach. Fel arfer, ni chaiff y cynhyrchion hyn eu rheoleiddio na'u profi.

Er gwaethaf y gwaharddiad cenedlaethol ar fêps untro a gyflwynwyd ar 1 Mehefin 2025, roedd gwybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgyrch yn dangos bod gwerthiant anghyfreithlon wedi parhau, a bod hyn yn aml yn digwydd y tu ôl i flaenau siopau cyfreithlon neu'n cael eu cyflenwi trwy rwydweithiau anffurfiol.

### Cymunedau yn ymateb

Yn ogystal, roedd yr ymgyrch wedi ategu pwysigrwydd gwrando ar y cyhoedd. Roedd pobl wedi cysylltu â Crimestoppers, gan rannu pryderon am ddosbarthiadau amheus, cyflenwadau anarferol a gwerthiannau dan y cownter.

Mae'r wybodaeth a drosglwyddom yn dangos gwerth gwybodaeth ddienw a sut y mae'n helpu i gadw pobl ifanc – a'r gymuned ehangach – yn ddiogel.




> **"Mae'r wybodaeth a drosglwyddom yn dangos gwerth gwybodaeth ddienw a sut y mae'n helpu i gadw pobl ifanc – a'r gymuned ehangach – yn ddiogel"**

# “Llif gwybodaeth gwell” yn dilyn lansiad mentrau ‘Kick Ket Out’

Mae ymgyrch **Kick Ket Out** yn amlygu risgiau iechyd difrifol cetamin – gan gynnwys niwed i bledren rhywun a phroblemau iechyd meddwl – gan annog unrhyw un sy’n gwybod am y rhai sy’n delio cetamin i godi eu llais mewn ffordd ddienw.

Mae cetamin – a elwir hefyd yn ‘Fitamin K, ‘Special K’, ‘Katie’, ‘Super K’, ymhlith enwau eraill – yn creu ymdeimlad o ddatgysylltiad o’ch corff a’r byd allanol.

Fe’i ddatblygwyd fel tawelydd ceffylau yn wreiddiol, ac mae wedi dod yn destun pryder arwyddocaol mewn nifer o gymunedau. Cyflwynwyd ein hymgyrch Kick Ket Out yng Ngogledd Orllewin Lloegr, Gogledd Iwerddon ac yn Swydd Lincoln.

**Mae Chris Chapman o adran CID Lincoln yn myfyrio am effaith yr ymgyrch yn y ddinas:**

“Roedd ymgyrch Kick Ket Out Crimestoppers wedi sicrhau canlyniadau gorfodi arwyddocaol i Heddlu Swydd Lincoln.

Trwy gyfuno gweithgarwch adrodd dienw i Crimestoppers gyda negeseuon clir am y ffordd y mae gwybodaeth yn arwain at weithredu, roedd yr ymgyrch wedi cryfhau ymddiriedaeth y gymuned a throsi ymwybyddiaeth yn ganlyniadau gweithredol.

Yn fwyaf nodedig, roedd wedi sicrhau cynnydd o 56% yn nifer yr adroddiadau ynghylch cetamin yn Lincoln, a chynnydd o 57% ar draws y sir yn ystod y cam cyntaf, a chynnydd o 90% ar ôl yr ail gam.

Roedd hyn wedi cynnig gwybodaeth i’n swyddogion ynghylch delwyr, llwybrau cyflenwi a lleoliadau sy’n gysylltiedig â chamddefnyddio, yr oedd modd gweithredu yn ei chylch.

Yn hytrach na dibynnu ar blismona rhagweithiol yn unig, roedd modd i swyddogion weithredu ar sail gwybodaeth gan y gymuned, gan wella cywirdeb ac effeithlonrwydd gweithrediadau gorfodi.

Mae’n bwysig nodi bod yr ymgyrch wedi rhoi hwb i weithgarwch adrodd uniongyrchol i Heddlu Swydd Lincoln hefyd.

Wrth i breswylwyr weld canlyniadau gorfodi amlwg ac y rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddynt, dewisodd rhagor o unigolion adrodd eu pryderon i’r heddlu yn uniongyrchol.

Mae hyn yn adlewyrchu mwy o ymddiriedaeth yn nhryloywder a gallu yr heddlu i ymateb, gyda chymorth llawn gweithgarwch Crimestoppers.

Yn gyffredinol, roedd ymgyrch Kick Ket Out wedi gwella llif gwybodaeth, cryfhau gallu gorfodi a meithrin hyder y cyhoedd wrth fynd i’r afael â cetamin ar draws Swydd Lincoln.”

# Gwneud y stryd fawr yn fwy diogel mewn tref farchnad yn Swydd Gaerlŷr

Mae troseddau manwerthu yn parhau i effeithio ar gymunedau ar draws y DU, gan roi pwysau ar fusnesau a chreu amgylchedd lle y gall staff a’r rhai sy’n gweithio mewn siopau deimlo’n anniogel ac yn agored i niwed.

Yn nhref farchnad Hinckley yn Swydd Gaerlŷr, mae dull gweithredu cydweithredol yn helpu i leihau a datrys troseddau ym maes manwerthu a lletygarwch.

Mae’r heddlu lleol, Cyngor Bwrdeistref Hinckley a Bosworth a’r Ardal Gwella Busnes yn cydweithio’n agos gyda busnesau i rannu gwybodaeth yn gyflym ac ymateb mewn ffordd effeithiol.

## Camau ymarferol ar gyfer diogelwch

Mae radios manwerthu, platfform Disc sy’n galluogi busnesau i rannu gwybodaeth amserol, CCTV a thimau plismona manwerthu penodedig oll wedi cynorthwyo wrth arestio unigolion, adfer eiddo a chyfraddau datrys uchel.

Yn ogystal, mae’r bartneriaeth wedi darparu camerâu fideo i fusnesau lleol am ddim, y gall staff eu gwisgo, gan gynnig mwy o dawelwch meddwl a helpu i atal trais a chamdriniaeth. Roedd ein galwad i weithredu gan ddarparu gwasanaeth adrodd am ddim wedi cynnig haen ychwanegol bwysig.

Mae’n enghraifft glir o’r ffordd y gall gweithgarwch cydlynu lleol wneud strydoedd yn fwy diogel i weithwyr, busnesau a’r gymuned ehangach.









Rheolwr Cenedlaethol yr Alban, Angela Parker, ACC Tim Mairs, Arolygydd Emma Wright a DCI Jackie Knight o Dasglu Troseddau Manwerthu Heddlu yr Alban

# Ymateb yr Alban i gost gynyddol troseddau manwerthu

Mae Crimestoppers yn cyflawni rôl ganolog wrth gryfhau ymateb yr Alban i droseddau manwerthu, gan weithio mewn partneriaeth â Thasglu Troseddau Manwerthu Heddlu yr Alban er mwyn annog cymunedau i rannu’r hyn y maent yn ei wybod mewn ffordd ddienw.




**Mae DCI Jackie Knight, o’r Tasglu, yn esbonio:**

“Mae ffigurau Heddlu yr Alban yn dangos yr adroddwyd bod nwyddau a oedd yn werth tua £3.6 - £5 miliwn at ei gilydd wedi cael eu dwyn o siopau rhwng mis Ebrill 2024 a mis Hydref 2025. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod hyn yn debygol o fod yn amcangyfrif llawer rhy isel.

Yn ogystal, rhan o ganlyniadau troseddau manwerthu yn unig yw’r colledion ariannol – mae’r effaith ddynol yn ddifrifol ac yn aml yn anweledig. Mae gweithwyr manwerthu yn aml yn wynebu bygythiadau, agweddau ymosodol, a thrais wrth iddynt wneud eu gwaith. Mae hyn yn arwain at straen, ofn a niwed corfforol ac emosiynol hirdymor. Mae hyn yn annerbyniol.

Mae Crimestoppers yn cynorthwyo Heddlu yr Alban trwy gynnig sianel i’r cyhoedd rannu unrhyw wybodaeth sydd ganddynt am droseddau manwerthu a’r sawl sy’n gyfrifol. Gall pobl godi eu llais mewn ffordd ddienw, gan helpu’r Tasglu i nodi ad-droseddwyr a grwpiau troseddau manwerthu cyfundrefnol, tarfu ar eu gweithgarwch, diogelu gweithwyr manwerthu a gwneud ein cymunedau yn fwy diogel.

Nod yr ymgyrch yw newid y naratif bod troseddau manwerthu yn rhai diberygl.

Mae nifer sy’n gweithio ym maes manwerthu yn adrodd eu bod yn teimlo’n anniogel, yn ofidus ynghylch mynd i’r gwaith neu’n methu dychwelyd i’w cyflogaeth. NID yw troseddau manwerthu yn droseddau heb ddioddefwyr; maent yn effeithio ar bob un ohonom – busnesau, eu staff, yr economi a chi.

Gallwn herio’r gamdybiaeth hon gyda’n gilydd. Gall pawb chwarae rhan trwy ddarparu gwybodaeth am enwau’r rhai sy’n gyfrifol ac am y mannau lle y caiff nwyddau wedi’u dwyn eu hailwerthu er mwyn gwneud elw ariannol.”

# Cymuned Crimestoppers

Mae Crimestoppers yn credu bod gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel rhag troseddu, ble bynnag y maent yn byw, ynghyd â grym pobl er mwyn helpu i rwystro, datrys ac atal troseddu. Mae hyn yn ein rhoi wrth wraidd y gymuned, boed hynny mewn digwyddiad busnes neu mewn sioe amaethyddol.







## Myfyrwyr troseddeg Greenwich yn cynnig dirnadaeth ffres

Mae Crimestoppers yn gweithio gyda Phrifysgol Greenwich i gynnig profiad ymarferol i fyfyrwyr troseddeg law yn llaw â'u hastudiaethau.

Daw ein tri myfyriwr ar leoliad eleni o'r cwrs a addysgir gan Dr Melissa Pepper, Athro Cyswllt. Roedd eu lleoliadau yn rhan o'u blwyddyn olaf yn Greenwich, ac fe'u cynorthwywyd gan ein prosiectau allgymorth ieuenctid, ymgysylltu â gwirfoddolwyr a data.

Isod, maent yn rhannu'r hyn a ddysgont.



**O'r chwith i'r dde: Levente, Lottie, Neda a Dr Pepper**

**Levente –** "Ymunais â'r tîm data yn Crimestoppers ac rydw i wedi dysgu cymaint o sgiliau meddwl ac ymarferol ers ymuno, gan amrywio o sut i ddarllen setiau data cymhleth i ddefnyddio gwahanol feddalwedd er mwyn fy nghynorthwyo yn fy nhasgau, a fydd yn ddefnyddiol i mi y tu hwnt i weithio i'r tîm data hefyd – yn enwedig gan mai fy rôl yw casglu a thrin data amrwd a'i baratoi ar gyfer ei gyflwyno. Mae Crimestoppers yn sefydliad hanfodol er mwyn i dystion adrodd heb ofn, ac rydw i'n falch o fod yn rhan ohono."

**Lottie –** "Ymunais fel un o dri myfyriwr ar leoliad gwirfoddol yn Crimestoppers, a bûm yn ymwneud â Thîm Fearless yn bennaf. Rydw i wedi bod wrth fy modd yma yn Crimestoppers. Mae wir wedi fy helpu i ddeall y theori yr wyf wedi ei ddysgu yn y brifysgol a sut y mae hwnnw yn berthnasol i swyddi go iawn fel y rhai a geir yn Crimestoppers. Rydw i hefyd wedi cael cryn hwyl yn mynychu digwyddiadau Fearless, gan gyfarfod rhai o'r bobl ifanc a ffilmio ar gyfer cyfryngau cymdeithasol."

**Neda –** "Roeddwn wedi dwli ar fy lleoliad gyda Crimestoppers eleni. Bu'n fraint cael gweithio gyda thîm mor ddiysgog. Mwynheais fod yn rhan o'r Tîm Gwirfoddoli, gan gysylltu â'n gwirfoddolwyr ymroddedig ar draws y DU a thystio i'w hymroddiad i ledaenu'r neges. Mae'r profiad wedi fy ngwneud yn fwy angerddol fyth dros weithio ym maes Cyfiawnder Troseddol yn y dyfodol."

## Amlygu'r dycnwch a'r penderfyniad a ddangosir gan ein rhedwyr elusennol

**Bob blwyddyn, mae dwsinau o bobl yn codi arian ar gyfer Crimestoppers trwy daclo heriau rhedeg mawr fel Marathon Llundain a Great North Run. Yma, mae PC Gwyneth Jones o Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr yn rhannu ei phrofiad hi.**

"Rhedais Farathon Llundain TCS ar ddydd Sul 27 Ebrill 2025 gan godi arian i Crimestoppers.

Dechreuodd y diwrnod gyda chymysgedd o nerfau a chyffro, ac roedd y tywydd cynnes wedi gwneud hwn yn brofiad mwy dwys fyth.


Roedd casglu fy medal yn eiliad hynod o falch, yn enwedig ar ôl i salwch a gwaith shifft heriol amharu ar fy nghynllun hyfforddi. Yn ddiweddarach, darganfyddais bod fy rhieni hyd yn oed wedi fy ngweld yn croesi'r linell derfyn ar y teledu.

Dewisais redeg dros Crimestoppers oherwydd fel swyddog rheng flaen, rydw i'n gwybod pa mor anodd y mae hi'n gallu bod casglu tystiolaeth a dwyn troseddwyr gerbron eu gwell. Mae Crimestoppers yn cyflawni rôl hanfodol trwy gynnig ffordd ddiogel a dienw i'r cyhoedd rannu gwybodaeth. Roedd cefnogi'r elusen yn teimlo fel rhywbeth ystyrlon, personol a phwysig – rhywbeth yr oeddwn yn falch i'w hyrwyddo trwy gydol fy nghyfnod ar y marathon."






# Defnyddio technoleg i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd



Mae Leo Harrison-Jacobs, cyd-sylfaenydd/cyfarwyddwr Grŵp Disturbed Media, yn myfyrio am yr ystyriaethau ar gyfer y trefniant cydweithio rhwng HyperGram a Crimestoppers...

Fel rhan o'n lansiad byd-eang o HyperGram, roeddem yn dymuno dangos bod modd defnyddio technoleg newydd i wneud mwy nag adrodd straeon masnachol yn unig. Roedd gweithio gyda Crimestoppers wedi cynnig y cyfle i ni gysylltu'r platfform gyda neges o werth gwirioneddol i'r cyhoedd.

Cynhaliwyd profiad HyperGram ar draws Gorsaf Waterloo a Westfield yn Llundain, ac yng ngorsaf Piccadilly Manceinion, dros gyfnod y Nadolig. Y rhain yw rhai o'r amgylcheddau cyhoeddus prysuraf yn y DU, ar adeg o'r flwyddyn pan fo niferoedd y bobl sy'n teithio trwyddynt yn uchel ac mae sylw pobl yn dameidiog. Yn y cyd-destun hwnnw, mae gweledledd yn hanfodol. Roedd graddfa a phresenoldeb yr HyperGram yn sicrhau bod neges Crimestoppers yn amlwg iawn, gan ganiatáu i bobl ymgysylltu ag ef yn dawel o hyd, ac ar eu termau eu hunain.

Un o'r canlyniadau mwyaf effeithiol oedd ymwybyddiaeth ar raddfa fawr. Trwy roi Crimestoppers mewn mannau cyhoeddus cyffredin, roedd yr ymgyrch yn ategu'r ffaith bod y gwasanaeth wastad ar gael, a'i fod yn ddienw ac yn berthnasol. Roedd wedi helpu i symud y dybiaeth o Crimestoppers i ffwrdd o fod yn rhywbeth sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd eithafol yn unig, ac yn lle hynny, ei gyflwyno fel adnodd cyson a hygyrch ar gyfer y cyhoedd.

O'n persbectif ni, roedd y trefniant cydweithio yn werthfawr am sawl rheswm. Roedd wedi caniatáu i ni brofi'r platfform mewn amgylcheddau byw anodd, gan ddangos sut y gellir defnyddio fformatau tarfol mewn ffordd gyfrifol i gynorthwyo diogelwch y cyhoedd. Roedd y bartneriaeth yn dangos bod arloesi a phwrpas yn gallu cydweithio mewn ffordd effeithiol, gan gyrraedd cynulleidfaoedd mawr ac amrywiol mewn ffyrdd y mae fformatau traddodiadol yn aml yn ei chael hi'n anodd ei gyflawni.





# Yn falch o wneud gwahaniaeth: Carlisle yn cyfrannu £20,000 i Crimestoppers

Mae Gwasanaethau Cymorth Carlisle wedi rhoi £20,000 i Crimestoppers, gan gefnogi gwaith hanfodol ein helusen wrth helpu pobl i rannu gwybodaeth am droseddu mewn ffordd ddiogel a dienw.

Mae'r cyfraniad hwn yn datblygu ymrwymiad hirsefydlog Carlisle i gefnogi sefydliadau sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn mewn cymunedau ar draws y DU.

Mae gwaith Crimestoppers yn rhoi'r hyder i bobl adrodd am droseddu heb ofni – gan helpu i ddiogelu teuluoedd, cymdogaethau a busnesau bob dydd.

Trwy gefnogi Crimestoppers, mae Carlisle yn helpu i droi tystion tawel yn arwyr bob dydd – gan ategu ymrwymiad ar y cyd i gymunedau mwy diogel.




**Paul Evans, Prif Swyddog Gweithredol Carlisle (chwith), gyda Mark Hallas, Crimestoppers**

# Altia yn cefnogi Cinio Blynyddol 2025 Crimestoppers

Rydym yn ddiolchgar i Altia am noddi Cinio Blynyddol 2025 Crimestoppers.

Roedd hwn yn ddigwyddiad amlwg ym mlwyddyn yr elusen, gan ddwyn ynghyd arweinwyr, staff, ymddiriedolwyr a phartneriaid niferus ein helusen ar draws maes gorfodi'r gyfraith, y sectorau preifat a gwirfoddol sy'n cynorthwyo ein gwaith hanfodol.

Mae'r digwyddiad hwn yn gyfle i gydnabod y bobl a'r partneriaethau sy'n cadw gwasanaeth Crimestoppers i redeg ddydd a nos, a'r sefydliadau sy'n gweithio law yn llaw â ni er mwyn helpu i wneud cymunedau yn fwy diogel i bawb.

Mae cefnogaeth Altia yn adlewyrchu eu hymrwymiad parhaus i gryfhau'r rhwydwaith ehangach sy'n mynd i'r afael â throseddu, diogelu pobl agored i niwed a meithrin ymddiriedaeth ar draws cymunedau.



**Arglwydd Ashcroft (dde) gyda thîm Altia**

# Crimestoppers yn croesawu cefnogwyr o'r DU ac o wledydd tramor i'n Pencadlys


Charlie's Promise: penodwyd Martin a Tara Cosser yn Genhadon Fearless swyddogol


Kaya Comer-Schwartz, Dirprwy Faer Plismona Llundain


HMIC Lee Freeman a Mark Hallas


Mark Hobrough, Prif Gwnstabl Heddlu Gwent


Jonathan Ash-Edwards, PCC Swydd Hertford


Razvan a Cristina Alexandru

El Salvador Crime Stoppers Alto al Crimen | Crime Stoppers International | HM Prison & Probation Service | HM Revenue & Customs | Help Nederland veilig. Meld Misdaad Anoniem 0800-7000 | meldmisdaadanoniem.nl

Charlie's Promise | City of London Police | Essex Police | PFCC Police, Fire and Crime Commissioner for Essex | Kent Police





Ymddiriedolaeth Crimestoppers
Blwch Post 324, Wallington
SM6 6BG

Mae Ymddiriedolaeth Crimestoppers yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1108687), yr Alban (SC037960)

Golygydd: Marcus Churchill

Cymorth Golygyddol a Chynhyrchu: Toyin Amusan, Amber Gardiner

Dylunio: Phil McAllister Design Ltd

Argraffwyd yn y DU gan Wasg Selsey

**CrimeStoppers.**
**0800 555 111**
100% anonymous. Always.
crimestoppers-uk.org

© Ymddiriedolaeth Crimestoppers 2026


# Partner with us

We specialise in protecting businesses and keeping communities safe.

**Our services:**

- Employee reporting/ speak up service
- Public-facing reporting/ whistleblowing service
- Information sharing
- Partnerships
- Networking & events
- Public facing education, awareness and call to action campaigns

Find out more by scanning the QR code:



**crimestoppers-uk.org/partner-benefits**

**CrimeStoppers.**
Speak up. Stay safe.

Registered Charity No. 1108687 (England and Wales) No. SC037960 (Scotland)